

# amserbeibl

## Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

### Storiâu Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Genesis 25: 19-34




ADNOD  
ALLWEDDOL  
Genesis 25: 28

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i ddod  
o hyd i'r adnod.

### Stori I Jacob yn twyllo'i frawd

Ydych chi'n un o efeilliad? Neu ydych chi'n nabod gefeilliad? Weithiau mae'n anodd dweud y gwahaniaeth rhwng gefeilliad – maen nhw'n edrych mor debyg. Roedd Isaac a Rebeca yn falch iawn pan gawson nhw ddua fachgen bach. Roedd Esau a Jacob yn efeilliad ond roedden nhw'n wahanol iawn i'w gilydd. Roedd Esau'n flewog iawn a phan dyfodd yn ddyn, roedd wrth ei fodd allan yn hela anifeiliaid. Dydyn ni ddim yn gwybod sut oedd Jacob yn edrych ond roedd yn hapus yn aros gartref o gwmpas y tŷ.




#### C Llanwch enwau'r teulu ar y 'goeden deulu'.

Gwaetha'r modd, doedd e ddim yn deulu perffaith. Roedd un mab yn ffefryn gan y tad a'r mab arall yn ffefryn gan y fam.

#### C Llanwch y bylchau trwy roi'r llythrennau yn y drefn gywir.

Roedd Isaac yn caru  
— — — — . (u s a E)

Roedd Rebeca yn caru  
— — — — — . (b o c a J)



8

4

Esau a gafodd ei eni gyntaf, felly roedd ganddo hawliau arbennig; er enghraifft, ef fyddai'n dod yn ben y teulu pan fyddai ei dad yn marw. Yr enw ar yr hawliau arbennig hyn oedd yr enedigaeth-fraint.

Un diwrnod, roedd Jacob yn coginio cawl pan ddaeth Esau i mewn. Roedd eisiau bwyd yn ofnadwy arno. Roedd wedi bod yn hela ac roedd aroglau da ar y cawl! "Rho gawl i mi, dw i bron â llwgu," meddai.

Roedd Jacob yn slei. Roedd arno eisiau rhywbeth yn lle'r cawl.


"Fe roddaf i gawl i ti os rhoddi di dy enedigaeth-fraint i mi," meddai.

Wnaeth Esau ddim meddwl ddwywaith, roedd arno gymaint o eisiau bwyd!

Doedd ei enedigaeth-fraint ddim yn bwysig iawn iddo, beth bynnag.


Doedd Jacob ddim gwell na'i frawd. Fe wnaeth e dwyllo'i frawd i roi ei enedigaeth-fraint iddo.

**C Llanwch y geiriau coll yn y swigod siarad.**



Weithiu rydyn ni'n gallu bod yn hunanol iawn, fel Esau a Jacob. Ddylen ni ddim bod felly.

**C Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau hyn i weld beth mae'r Beibl yn galw bod yn ddrwg.**



3

Rydyn ni i gyd wedi gwneud pethau drwg ac mae angen i Dduw faddau i ni os ydyn ni am fynd i'r Nefoedd. Ydych chi wedi credu yn yr Arglwydd Iesu a fu farw fel y gall Duw faddau i ni?

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw \_\_\_\_\_



DARLLENWCH  
Genesis 27: 1-29



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Genesis 27: 20

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i ddod  
o hyd i'r adnod.

## Stori 2 Jacob yn twyllo'i dad



Pan oedd Isaac yn hen, aeth yn ddall. Roedd yn dymuno bendithio ei hoff fab, Esau, cyn iddo farw. Roedd am fwynhau pryd o fwyd yr oedd Esau wedi'i baratoi hefyd. "Cer i hela anifail gwylt," meddai Isaac wrth Esau "a'i goginio i mi ac wedyn fe wnaf i dy fendithio di." Aeth Esau i hela â bwa saeth.

### C Lliwiwch y llun.

Roedd Rebeca'n gwrando! Roedd arni hi eisiau i'w hoff fab hi, Jacob, i gael y fendith. Dywedodd wrth Jacob am ladd dwy afr a byddai hi'n gwneud bwyd i Jacob ei roi i Isaac. Meddyliodd Jacob am broblem. "Os bydd Dad yn cyffwrdd â mi." meddai, "bydd yn gwybod nad Esau ydw i. Mae fy nghroen i'n llyfn ond mae croen Esau'n flewog." "Gwna fel dw i'n ei ddweud!" meddai Rebeca. Gwnaeth Jacob hynny. Roedden nhw'n mynd i dwyllo Isaac.

### C Ysgrifennwch yr atebion yn y Grid Geiriau.

- Beth oedd enw gwraig Isaac?**
- Pwy oedd ei hoff fab hi?**
- Dywedodd Isaac wrth hwn am fynd i hela.**
- Roedd yn defnyddio hwn i hela.**
- Lladdodd Jacob ddwy \_\_\_\_\_.**

1	2
3	
4	5

10

Pan oedd y bwyd yn barod, rhoddodd Rebeca grwyn y geifr dros wddf a dwylo Jacob. Gwisgodd Jacob ddillad Esau a mynd â'r bwyd i Isaac! "Pa fab wyt ti?" gofynnodd Isaac. "Esau ydw i," meddai Jacob.

**C Pa gelwydd ddywedodd Jacob wrth ei dad? Llanwch y bylchau.**

Dywedodd “—————”

**C Sut wnaeth Jacob dwyllo'i dad oedd yn ddall? Llanwch y bylchau.**

Gwisgodd dd \_\_\_\_\_ E \_\_\_\_\_.

Roedd Isaac yn amheus gan ei fod yn meddwl ei fod yn nabod llais Jacob, ond pan gyffyrddodd ag ef, roedd yn meddwl mai Esau oedd yno.



- Roedd wedi'i wisgo fel Esau.
- Roedd yn teimlo fel Esau.
- Roedd aroglau dillad Esau ar ddillad Jacob.

Ond pwy oedd ef?

**C Lliwic y sgoriau sydd â smotyn ynnyd yn nhw i gael gwybod.**

•	•	•		•		•		•		•	•
•			•	•	•	•	•	•	•	•	•
•			•	•	•	•		•	•	•	•
•			•	•	•	•	•	•	•	•	•
•	•		•	•	•		•		•	•	

Bendithiodd Isaac Jacob. Pan ddeallodd Esau ac Isaac beth oedd wedi digwydd, roedden nhw'n drist ac yn ddig. Pan fyddwn ni'n gwneud rhywbeth o'i le, fel twyllo a dweud celwydd, rydyn ni'n gwneud pobl eraill yn drist, ond yn bwysicach na hynny, rydyn ni'n gwneud Duw yn drist.



# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw \_\_\_\_\_



DARLLENWCH  
Genesis 28: 1-22



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Genesis 28: 16

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i ddod  
o hyd i'r adnod.

## Stori 3 Jacob yn cwrdd â Duw



Ydych chi wedi byw yn yr un tŷ erioed? Weithiau, mae pobl yn symud i dref neu bentref arall. Dywedodd Isaac wrth ei fab, Jacob, am fynd i Haran at ei ewythr Laban a phriodi un o'i ferched. Gan fod ei frawd, Esau, yn bwriadu ei ladd, roedd Jacob yn meddwl y byddai'n syniad da symud i ffwrdd am dipyn!

**C** Ysgrifennwch enw'r lle yr oedd Jacob yn mynd iddo ar y postyn.

**C** Rhowch gylch o gwmpas enw ewythr Jacob.

Abraham      Laban      Esau

Aeth Jacob ar ei daith.  
Pan ddaeth y nos,  
arhosodd mewn lle o'r  
enw Lus, a  
defnyddiodd garreg fel  
gobennydd. Cafodd  
freuddwyd rymedd  
iawn. Breuddwydiodd  
ei fod yn gweld rhyw  
fath o risiau neu ysgol.  
Roedd y gwaelod ar y  
ddaear a'r rhan uchaf  
yn cyrraedd y  
Nefoedd.



**C** Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau hyn i gael gwybod pwy oedd yn mynd i fyny ac i lawr yr ysgol.



ng




4

4

4

Yn y freuddwyd, siaradodd Duw â Jacob.  
Addawodd ei fendithio fe a'i deulu. Meddai,  
"Byddaf i gyda ti ac fe wnaf i dy amddiffyn di ble  
bynag yr ei di. Byddaf yn bendithio'r holl  
genhedloedd trwot ti a dy ddisgynyddion."  
Meddyliwch am y pethau drwg roedd Jacob  
wedi'u gwneud!  
Rydyn ni'n debyg i Jacob. Rydyn ni wedi gwneud  
pethau drwg hefyd. Mae Duw yn ein caru fel yr  
oedd yn caru Jacob. Anfonodd ei Fab i farw ar y  
groes droson ni. Trwy farw droson ni, daeth  
lesu'n 'ysgol' o'r ddaear i'r Nefoedd, rhyngom ni  
a Duw.

Nefoedd



Daear

**C** Rhowch tic (✓) neu groes (✗) i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn  
gywir ai peidio.

**1. Defnyddiodd Jacob glustog fel gobennydd. ....**

**2. Roedd Duw'n caru Jacob. ....**

4

**3. Mae Duw'n ein caru ni. ....**

**4. Bu lesu farw ar y groes droson ni. ....**

Roedd ofn ar Jacob. Dechreuodd feddwl am Dduw. Gwnaeth Jacob addewid i Dduw.  
Meddai, "Os af i nôl yn ddiogel i dŷ fy nhad, bydd yr Arglywydd yn Dduw i mi."

**C** Llanwch y bylchau i gael gweld  
beth yr oedd Duw wedi'i  
ddweud.

**"Byddaf i g \_\_\_\_\_ ti ac  
fe wnaf i dy  
a \_\_\_\_\_ di"**

Doedd Jacob ddim wedi dysgu bod  
Duw bob amser yn cadw'i addewidion!  
Dyna pam y dylen ni ymddiried yn  
Nuw".



4

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw



DARLLENWCH  
Genesis 29: 1-30



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Genesis 29: 28

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i ddod  
o hyd i'r adnod.

## Stori 4 Jacob yn cael gwraig

Aeth Jacob i weld ei ewythr Laban a'i deulu yn Haran. Doedd e ddim wedi'u gweld nhw o'r blaen a doedden nhw ddim yn gwybod ei fod ar y ffordd. Ar ôl taith hir, cwrddodd Jacob â bugeiliaid ger ffynnon gyda'u defaid.

"O ble rydych chi'n dod?" gofynnodd Jacob.

"O Haran," medden nhw.

"Ydych chi'n nabod Laban?" gofynnodd Jacob.

"Ydyn," atebon nhw, "dyma'i ferch, Rachel, gyda defaid ei thad."



Mae'n siwr bod Jacob wrth ei fodd o gael cyfarfod â'i berthynas! Roedd Duw wedi addo amddiffyn Jacob ac roedd wedi'i arwain i'r lle iawn.

**C Llanwch y bylchau i roi enwau'r bobl yn y stori.**

J \_\_\_\_\_


R \_\_\_\_\_ I

b \_\_\_\_\_ e i \_\_\_\_\_ d L \_\_\_\_\_

4

Helpodd Jacob Rachel i roi dŵr i'r defaid ac yna dywedodd wrthi eu bod yn perthyn. Rhedodd Rachel adref a dweud wrth ei thad.

Gofynnodd Laban i Jacob aros gyda nhw ac fe wnaeth Jacob hynny a gweithio dros ei ewythr. Roedd gan Laban ferch arall o'r enw Lea.



6

**C Llanwch yr enwau ar y 'goeden deulu'.**



Ar ôl mis, dywedodd Laban, "Mae'n rhaid i ti gael cyflog am weithio i mi. Faint wyt ti am ei gael?"

Nid am arian y gofynnodd Jacob. Roedd yn caru Rachel a dywedodd y byddai'n gweithio am saith mlynedd pe bai'n cael priodi Rachel wedyn.

Cytunodd Laban ond ar ôl y saith mlynedd, twyllodd Laban Jacob trwy roi Lea'n wraig iddo yn lle Rachel! Doedd ar Jacob ddim eisiau priodi Lea!

### C Llanwch y bylchau.

"Pam rwyt ti wedi fy nhwyllo?" gofynnodd Jacob.

"Fe weithiais i am s \_\_\_\_\_ mlynedd i gael priodi R \_\_\_\_\_ l!"

4

Dywedodd Laban mai Lea ddylai gael priodi gyntaf am ei bod hi'n hŷn na Rachel. Druan â Jacob! Roedd wedi cael ei dwyllo, fel y twyllodd ef ei dad a'i frawd.

Yn aml, os byddwn ni'n gwneud rhywbeth drwg i rywun arall, mae rhywbeth drwg yn digwydd i ni hefyd! Mae'r Beibl yn dweud, "Bydd eich pechod yn eich dal". (Numeri 32: 23)

### C Rhowch gylch o gwmpas yr atebion i'r cwestiynau hyn:-

Sawl merch oedd gan Laban?

1    2    3

3

Am sawl blwyddyn y gweithiodd Jacob cyn priodi Lea?

5    6    7

3

Roedd gan lawer o ddynion fwy nag un wraig bryd hynny, er nad dyna oedd bwriad Duw. Wythnos ar ôl iddo briodi Lea, priododd Jacob Rachel hefyd.



Yna bu'n rhaid iddo weithio i'w ewythr am saith mlynedd arall.

cyfanswm

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120